CYMDEITHAS TAI CLWYD

CEFNOGAETH TENANTIAETH I DENANTIAID BREGUS

Rydym ni'n cynnig cefnogaeth tenantiaeth i rai o'n tenantiaid bregus, i alluogi'r tenantiaid hynny i barhau i fyw yn eu cartref eu hunain yn annibynnol. Mae pedwar cynllun ar gyfer grŵp cleientiaid penodol yn Sir Ddinbych a Wrecsam.

Mae Cymdeithas Tai Clwyd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth ymatebol o'r ansawdd uchaf i unigolion a theuluoedd y mae arnynt angen cymorth a chefnogaeth.

Wrth dderbyn y gwasanaethau a ddarperir gan y Swyddog Lletya Cymunedol, byddwn yn:-

- Cadw'r holl wybodaeth rydych chi'n ei roi i ni yn ddiogel ac yn gyfrinachol.
- Broffesiynol ac yn meddu ar y sgiliau priodol ac yn derbyn hyfforddiant rheolaidd er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol, effeithlon a gofalgar.
- Cytuno ar gynllun cefnogaeth gyda chi o ran eich anghenion cefnogaeth. Cynhelir adolygiadau gan ymgynghori yn llawn gyda chi.
- Cadw at delerau eich cynllun cefnogaeth unigol.
- Gweithio tuag at gyrraedd y safonau ansawdd uchaf fel y diffinnir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn yr amodau Grant Refeniw Cefnogi Pobl.
- Parhau i geisio diwallu anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth, ac felly byddwn yn trefnu gweithgareddau cyfranogiad gyda chi yn rheolaidd.
- Eich cynorthwyo chi i hysbysu am unrhyw anghenion trwsio/cynnal a chadw.
- Eich cynorthwyo chi gyda rheoli cartref e.e. trosglwyddo i eiddo arall, eich cynghori a'ch annog chi i dalu eich rhent, a'ch cynorthwyo gyda siopa yn achlysurol a darparu cyngor cyffredinol ar sut i ddelio gyda dyledion ariannol.

Ni fyddwn yn:-

- Siopa ar eich rhan.
- Coginio ar eich cyfer.
- Glanhau eich cartref.
- Ymateb 24 awr y dydd. Mae'r Swyddogion Lletya Cymunedol ar gael yn ystod oriau agor y swyddfa yn unig.

Er mwyn derbyn rhagor o wybodaeth gan gynnwys dull cyfeirio, cysylltwch â'r Tîm Tai â Chefnogaeth.

Os ydych angen y ddogfen hon mewn fformat gwahanol e.e. ar dâp, mewn Braille, cysylltwch â ni.

54 Stryd y Dyffryn
DINBYCH
Sir Ddinbych
LL16 3BW

☎0345 230 3140
🖷 0345 230 3145
www.taiclwyd.com
taiclwyd@taiclwyd.com

Uned 8, Gweithdai Penllyn
Heol Aran
Y Bala, Gwynedd
LL23 7SP